

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
2 Hydref 2014 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr Sioned Williams, Dafydd Iwan, Geraint R. Jones, Gwyneth Thomas
Cadeirio: Erddyn Davies
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

MATERION

Porth Eglwys Sant Baglan

Darganfuwyd y trosglwyddwyd adeilad yr Eglwys i Ffrindiau Cyfeillion Eglwysi Di-ffrindiau yn 1991. Nid oedd hyn yn cynnwys trosglwyddiad o'r tir o gwmpas yr Eglwys a thu mewn i'r waliau sy'n amgylchynu'r Eglwys, na'r porth. Rhoddwyd hawl tramwy i'r Cyfeillion, o'r porth hyd at ddrws yr Eglwys.

Oni bai fod yna drosglwyddiad pellach wedi bod, yr Eglwys yng Nghymru sydd berchen ar weddill y tir a'r eiddo.

Mae'r Clerc yn disgwyl ateb pellach gan adran eiddo'r Eglwys yng Nghymru, er mwyn sicrhau na fu trosglwyddiad eto wedi 1991. Yn ogystal, disgwylir ateb gan Gyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am y fynwent, er mwyn deall sut a phryd y trosglwyddwyd y cyfrifoldeb hynny iddynt.

Maes Chwarae Llwyn Beuno

Mewn ymateb i ymholiad y Clerc, cadarnhaodd Cyngor Gwynedd:

1. Fod amllder y gwaith torri gwair ar gyfer y maes chwarae'r un fath â bob maes chwarae yng Ngwynedd
2. Gosodwyd sedd siglen newydd ar 8 Gorffennaf yn lle'r un oedd wedi difrodi
3. Mae'r teils rwber ar raglen waith sydd i'w gwblhau gan gontractwyr erbyn dechrau mis Hydref
4. Nid yw Cyngor Gwynedd yn gwahardd plant rhag chwarae pêl o fewn y cae chwarae ac felly nid oes bwriad ganddynt i osod arwydd yn gwahardd chwarae pêl
5. Mae'r cae chwarae yn adnodd cyhoeddus, ac felly nid yw Cyngor Gwynedd o'r farn y dylai fod yna unrhyw gyfyngiad ar oedran mynediad y rhai all ei ddefnyddio

Mae gan Ysgol Bontnewydd gae chwarae, a holwyd a yw hi'n rhesymol nad yw'r adnodd yma ar gael i blant yr ardal y tu allan i oriau ysgol, gan y rhwystrir mynediad ar yr adegau yma.

Cytunwyd fod y Clerc yn ysgrifennu at Bennaeth Ysgol Bontnewydd i ofyn am y rheswm dros gau'r cae chwarae y tu allan i oriau arferol ysgol, ac i weld a fyddai'n bosibl ymestyn oriau ei ddefnydd.

Cyffordd Lôn Groes a Mynedfa Plas y Bryn

Cadarnhaodd Cyngor Gwynedd fod y gwaith o baentio llinell wen wrth fynedfa Plas y Bryn a Lôn Groes fod wedi ei wneud erbyn diwedd wythnos ddiwethaf. Dydy'r gwaith ddim wedi cael ei wneud, ond mae ar restr waith y contractwyr i'w wneud yn fuan, ac fe'i gwneir pan fydd y contractwyr yn yr ardal nesaf.

Arosfan fysiau Llanfaglen

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i symud lleoliad yr arsofan fws ar gyfer y disgyblion sy'n mynd o Lanfaglan i ysgol Syr Hugh Owen i leoliad gerllaw Parc y Plwyf, Llanfaglan, cyn belled nad oes gwrthwynebiad lleol.

Bydd y Clerc yn gohebu efo'r trigolion sy'n byw gerllaw'r lleoliad er mwyn sicrhau nad oes gwrthwynebiad.

Goryrru yn Llanfaglan

Derbyniwyd data gan yr Heddlu sy'n deillio o'u hymweliadau penodol i dargedu gyrwyr sy'n goryrru. Mae'r Heddlu wedi bod yn mesur cyflymder cerbydau yn Llanfaglan 14 o weithiau rhwng Hydref 2013 a diwedd Medi 2014. Dengys hefyd fod goryrru'n digwydd, yn enwedig yn ystod yr oriau brig rhwng 07:30 a 10:00yb.

Disgwylir canlyniad yr arolwg cyflymder diweddaraf gan yr Heddlu yn fuan.

Gwersylla ger y Foryd

Mae'r Clerc wedi cael ymateb gan Gyngor Gwynedd, sy'n nodi eu bod wedi gofyn i'r rhai oedd yn gwersylla ac yn parcio ger y foryd am gyfnodau hir yn ystod yr haf i symud, ond oherwydd nad oes pwerau gorfodaeth gan y Cyngor, methiant fu hynny.

Bwriedir gosod arwyddion yn gwahardd parcio cyn gwanwyn 2015, fodd bynnag fydd y rhain ynddynt eu hunain ddim yn rhoi pŵer gorfodaeth i symud neu erlyn rhai sy'n tramgwyddo.

Cytunwyd fod angen pwerau gorfodaeth benodol, a gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn eto pam na all is-ddeddfau gael eu gwneud yn gwahardd parcio, yn enwedig ar y darn tir gwair eang hwnnw lle bu problem yn ystod yr haf.

CYNLLUNIO

Cais Cynllunio C14/0913/19/LL Cae'r Helygen, addasu'r adeilad allanol i uned wyliau. Dim gwrthwynebiad.

MATERION ERAILL

Troseddu yn ardal Bontnewydd

Cofnododd yr Heddlu'r troseddau canlynol ym Montnewydd yn ystod y chwe wythnos ddiwethaf:

- Dwyn llechi o dai allanol ardal ger Plas y Bryn
- Dwyn copr
- Dwyn ysgol o fan ger Teras Beuno
- Dwyn metal o gist cerbyd
- Ymosodiad ar 4 merch

Mae'r Heddlu wedi arestio ac wrthi'n holi dau berson am y dwyn llechi.

Problem Parcio y Lôn Groes

Mae parcio yn Lôn Groes yn parhau i fod yn broblem. Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Gwyneth Thomas yn cysylltu â'r trigolion lleol er mwyn casglu enwau gyda'r bwriad o ddanfôn llythyr at Gyngor Gwynedd yn mynegi pryder am y broblem parcio.

Cwrs Cymorth Cynllunio Cymru

Bu i'r Cynghorydd Sioned Williams fynychu Pwyllgor Arfon Dwyfor Un Llais Cymru, ble y nodwyd y medrid darparu modiwl ar gynllunio i Gynghorau Cymuned. Cytunwyd fod y Clerc yn gwneud ymholiadau pellach am union natur a chost y cwrs.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: 6 Tachwedd 2014, am 7yh.